

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 6

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Dewch i ...	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ardal benodol o Gymru ac i ymchwilio i ardaloedd eraill <p>Y cwricwlwm Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod Abertawe ac ardaloedd eraill yng Nghymru <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau <p>Celf a dylunio</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddylunio poster
Pwy ydw i?	<p>Gwyddoniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ymchwilio am wybodaeth wyddonol mewn perthynas â robotiaid, ei thrafod a'i chofnodi
Yr ardal	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ardal benodol o Gymru ac i ymchwilio i ardaloedd eraill <p>Y cwricwlwm Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ardaloedd yng Nghymru <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Ai ai	<p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
BETH sy yn y bocs?	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifo colled ac elw
Tegi	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ardal benodol o Gymru <p>Y cwricwlwm Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ardaloedd yng Nghymru
Ffilmiau	<p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i werthuso cerddoriaeth ffilmiau
Rhyfedd	<p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> meddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynhyrchu syniadau ar gyfer eu cynhyrchion datblygu manyleb ar gyfer eu gwaith archwilio, datblygu a chyfleu'u syniadau dylunio mewn ystod o ffyrdd
Lluniau lliwgar	<p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau

Yn ogystal, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

cyfathrebu a rhannu gwybodaeth

defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7